Florence Nightingale: 1820–1910

Y nyrs efo'r lamp

Dyfalbarhad / cryfder / gofal

Oes yna ysbyty yn eich ardal chi? Ydych chi wedi bod mewn ysbyty? Efallai eich bod wedi bod yn glaf yno, neu efallai bod aelod o'r teulu wedi bod yn yr ysbyty. Ydych chi wedi gweld y nyrsys a'r meddygon yn mynd o gwmpas yr ysbyty? Maen nhw'n gwisgo dillad arbennig. Efallai bod nyrs yn dod i'r ysgol. Stori am nyrs ydi'r stori hon. Roedd hi'n nyrs oedd yn gofalu am y milwyr yn ystod y rhyfel rhwng Lloegr a Rwsia.

Roedd y gaeaf yn Rwsia yn oer, iawn, iawn. Roedd llawer o'r milwyr yn cael eu hanafu ond doedd neb yno i ofalu amdanyn nhw. Anfonodd un gohebydd papur newydd neges i'r Swyddfa Ryfel yn Llundain. Anfonwyd llythyr o'r Swyddfa Ryfel yn syth at Florence Nightingale. Ymhen deuddydd, roedd hi a thri deg wyth o nyrsys wedi hwylio i dde Rwsia.

Adeilad anferth oedd yr ysbyty gyda phedair milltir o goridor hir. Roedd Florence wedi dychryn pan welodd glwyfau'r milwyr. Ar un cyfnod, roedd tua phedair mil o filwyr yn yr adeilad. Doedd yna ddim digon o welyau ar eu cyfer. Roedd rhai o'r milwyr yn gorwedd ar y llawr. Yn ystod y nos roedd yr adeilad yn oer iawn a doedd dim modd ei gynhesu.

Byddai Florence a'r nyrsys yn gweithio drwy'r dydd a'r nos. Er eu bod yn gweithio'n galed, roedd llawer o'r milwyr yn marw. Doedd yna ddim bandeisi na moddion i'w rhoi i'r cleifion. Doedd yna ddim plancedi i gadw'r milwyr yn gynnes. Doedd yna ddim bwyd hyd yn oed. Byddai ffrwgwd yn codi yn aml rhwng y nyrsys a'r meddygon. Credai'r meddygon fod y nyrsys yn cwyno gormod am gyflwr y cleifion. Florence ei hun fyddai'n cwyno ar ran y nyrsys eraill.

"Mae'n rhaid i ni wneud rhywbeth am gyflwr y cleifion."

Ond doedd y meddygon yn gwrando dim arni. Ar ddiwedd y pnawn byddai'r meddygon yn gadael yr ysbyty a gadael y cleifion yng ngofal y nyrsys. Ar ôl iddi dywyllu, byddai Florence yn cerdded o gwmpas yr ysbyty a'i lamp yn ei llaw. Byddai'r milwyr yn cusanu ei chysgod wrth iddi fynd heibio.

Ar ôl iddi gerdded yn ôl a blaen drwy'r ysbyty, byddai'n mynd i'w hystafell. Cornel oer, dywyll oedd hon. Ond wrth olau'r

lamp byddai'n dechrau ar ei gwaith o ysgrifennu llythyrau. Byddai rhai o'r llythyrau yn cael eu hysgrifennu at ei ffrindiau yn Lloegr. Llythyrau oedd y rhain yn gofyn am arian i helpu'r cleifion yn yr ysbyty. Roedd hi hefyd yn ysgrifennu ar ran y cleifion. Weithiau byddai'n ysgrifennu drwy'r nos heb amser i gysgu. Am bump o'r gloch y bore roedd rhaid codi a cherdded o gwmpas yr ysbyty. Byddai'r milwyr wrth eu bodd yn ei gweld. Dyma oedd bywyd Florence Nightingale bob dydd. Doedd ganddi ddim amser i fynd am dro neu hyd yn oed gael seibiant. Roedd ei bywyd i gyd yn troi o gwmpas y milwyr.

Ar ôl i'r rhyfel ddirwyn i ben, arhosodd yn yr ysbyty i ofalu am y cleifion. Pan oedd y milwyr olaf yn gadael, dyna pryd y gadawodd Florence Nightingale hefyd. Fe ddaeth adref ar ôl i'r rhyfel ddod i ben. Er bod llong fawr wedi ei hanfon i ddod â hi adref o Ffrainc, fe ddaeth hi adref ar long fechan heb i neb fod yn gwybod. Un felly oedd y nyrs efo'r lamp.

"...bydd yn wrol a dewr. Paid ag arswydo na dychryn, oherwydd yr wyf fi, yr Arglwydd dy Dduw, gyda thi ple bynnag yr ei."

Josua 1:9

Helpa ni, Arglwydd,
i drin pawb yr un fath
beth bynnag fo'u cenedl
neu eu lliw,
sut bynnag maen nhw'n edrych,
faint bynnag ydi eu hoed nhw.
Helpa fi i ddangos tosturi tuag at bawb.
Amen.

Mae rhai yn dweud bod Florence Nightingale yn wraig hunanol iawn. Hi oedd yn dweud wrth bawb beth i'w wneud.
Oes angen pobl fel hyn ymhob gwaith?
Neu ydi hyn yn gwneud mwy o ddrwg yn y pen draw?